**Rhwydweithiau IMPACT - Gwahoddiad i gymryd rhan fel aelod Rhwydwaith Lleol**

Hoffem eich gwahodd i fod yn rhan o brosiect cyffrous sy'n rhan o IMPACT.

Nod **Rhwydweithiau IMPACT** yw:

1. **Gwella arfer a chanlyniadau** mewn gofal cymdeithasol oedolion ar lefel leol a datrys heriau cyffredin ond cymhleth
2. Casglu **atebion ymarferol ar lefel gymunedol** i greu atebion y gellir eu datblygu sy'n **ysbrydoli ac yn llywio newid ar draws y DU**.

Bydd Rhwydweithiau IMPACT yn canolbwyntio ar bwnc penodol. Fe'ch gwahoddir i fod yn rhan o'ch un lleol chi sy'n archwilio **cefnogi pobl ag anableddau dysgu/awtistiaeth i ddod allan wedi arhosiad hir mewn ysbyty.** Rydym yn gobeithio bod y pwnc hwn o ddiddordeb i chi ac yn teimlo y byddai gennych gyfraniadau gwerthfawr i'w gwneud.

Os hoffech gymryd rhan, dros gyfnod o **6 mis**, byddwch yn cyfarfod **4 gwaith** â phobl eraill o'ch ardal leol – eich pentref, tref, dinas, cyngor neu awdurdod lleol – sydd eisiau gwella gofal cymdeithasol oedolion.

Ar yr un pryd, bydd Rhwydweithiau Lleol eraill yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr, i gyd yn canolbwyntio ar yr un mater, gyda'r nod yn y pen draw o rannu'r dysgu a chynhyrchu **cynlluniau gweithredu i hwyluso newid ar lefel leol**.

Byddwch yn cael deunyddiau cyn pob cyfarfod yn seiliedig ar ddysgu o bob rhan o Rwydweithiau eraill y DU er mwn trafod a chytuno ar y camau nesaf.

Bydd pawb sy'n cymryd rhan yn cael cyfle i leisio'u barn a dylanwadu ar newid.

Mae adnoddau ar gael i helpu pawb i gymryd rhan, gan gynnwys taliad o £75 y cyfarfod a chymorth i fynychu (e.e. ar gyfer costau cynorthwyydd personol neu ofal arall).

**Os hoffech gymryd rhan yn eich Rhwydwaith Lleol, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, cysylltwch ag a.cagney@sheffield.ac.uk**



*'Good support isn't just about "services" – it's about having a life.'*